# ‘‘Pŵer i’r tadau’’

Archwiliad Dulliau Cymysg o Lais Tadau, eu Cyfranogiad,
eu Dealltwriaeth o Hawliau Plant a’r Gefnogaeth sydd ar gael iddyn nhw
.

## Crynodeb gweithredol

Bu’r ymchwil yn archwilio canfyddiad tadau o gael eu clywed, eu hymwneud â phenderfyniadau, eu dealltwriaeth o hawliau plant, a’r gefnogaeth maen nhw’n ei derbyn fel tadau.

Mae’r ymchwil yn dweud y canlynol wrthyn ni:

- Mae tadau eisiau cael eu clywed, eu gwerthfawrogi a’u cynnwys, ond mae disgwyliadau cymdeithasol ac ymwybyddiaeth gyfyngedig yn dal i greu rhwystrau.
- Mae llawer o dadau heb ymwybyddiaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP) a’u rôl bwysig yn cynnal hawliau plant.
- Mae stereoteipiau sy’n cyflwyno mamau fel prif roddwyr gofal yn golygu ei fod yn anoddach i dadau geisio cefnogaeth neu gael eu cynnwys.
- Mae stigma’n parhau ynghylch dynion yn gofyn am help neu’n dangos eu bod yn fregus.
- Mae tadau eisiau cydnabyddiaeth gyfartal gan weithwyr proffesiynol a phartneriaid yng nghyswllt penderfyniadau am eu plant.

## Argymhellion Polisi ac Ymarfer

- Cynyddu cyfnod tadolaeth, fel bod tadau’n cael mwy o amser i feithrin perthynas agos â’u baban.
- Sicrhau bod strategaethau a strwythurau yn eu lle i gynnwys a chefnogi tadau o foment gyntaf eu taith at fod yn dad.
- Cynnig mwy o gefnogaeth wedi’i thargedu i gasglu a chynnwys lleisiau tadau yn ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru ac yn ehangach.
- Cynhyrchu adnoddau magu plant ar y cyd â thadau ar gyfer tadau, er mwyn sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu rhannu’n effeithiol ac yn gynhwysol.
- Darparu hyfforddiant ac arweiniad i bobl broffesiynol sy’n gweithio gyda theuluoedd ynghylch ffyrdd effeithiol o gynnwys tadau fel rhoddwyr gofal cyfartal.
- Gwella’r gefnogaeth i deuluoedd ynghylch sut mae cyfathrebu a gwneud penderfyniadau gyda’i gilydd.
- Darparu mwy o grwpiau a dosbarthiadau sy’n croesawu tadau, yn lle diogel i feithrin sgiliau a hyder ynghylch *‘sut mae bod yn dad da’*.
- Hybu delweddau cadarnhaol o dadau.
- Parhau i ariannu sefydliadau fel Plant yng Nghymru i ddarparu adnoddau clir a negeseuon i dadau ynghylch sut gallan nhw gefnogi hawliau eu plant.

# Manylion yr ymchwil:

Cynhaliwyd y gwaith ymchwil hwn yn 2024-2025 gan Brifysgol De Cymru ac mewn partneriaeth â Plant yng Nghymru (CiW) a Cyswllt Rhieni Cymru (PCW).

Bu 97 o dadau yn cymryd rhan, gan gasglu profiadau dros 200 o blant. Cwblhaodd y tadau dan sylw arolwg ar-lein, oedd yn cynnwys cwestiynau caeedig a phenagored.

Mae'r ymchwil yn dweud y canlynol wrthyn ni:

**Mae tadau'n teimlo eu bod yn cael eu diystyru:**

- Teimlai 21% o dadau nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed, yn enwedig mewn teuluoedd sydd wedi gwahanu neu gyfuno.
- Soniodd llawer ohonynt am gael eu hanwybyddu gan weithwyr proffesiynol, yn enwedig mewn cyd-destunau gofal iechyd ac ysgolion, lle gwelir mamau yn aml fel prif bwynt cyswllt.
- Teimlai rhai mai nhw oedd yn cael y bai am y ffaith bod perthynas wedi chwalu, a soniwyd bod diffyg sefydliadau i eiriol dros dadau.

**Mae angen gwneud mwy i gynnwys tadau mewn penderfyniadau:**

- Teimlai 74% eu bod yn rhan o benderfyniadau oedd yn effeithio ar eu plant.
- Credai 60% fod modd gwneud mwy i gynnwys tadau mewn penderfyniadau allweddol, er enghraifft, ym maes addysg iechyd.
- Teimlai 45% fod eu lleisiau'n dal heb gael eu clywed yn iawn.

**Mae gan dadau rôl bwysig yn cefnogi hawliau plant:**

- Dywedodd 55% o dadau eu bod yn deall hawliau plant, ond doedd 52% erioed wedi clywed am CCUHP.
- Roedd tadau oedd yn gyfarwydd â CCUHP yn tueddu i ymgysylltu'n fwy â lles eu plant.
- Roedd y rhan fwyaf yn credu y gallen nhw gefnogi lles pennaf eu plant (92%), codi llais drostyn nhw (82%) ac amddiffyn eu hawliau (80%) pan fyddai angen.

**Mae angen cefnogaeth fwy penodol i dadau:**

- Roedd mwy na thraean (35%) heb dderbyn unrhyw gefnogaeth swyddogol, gan ddibynnu'n bennaf ar bartner, teulu neu ffrindiau.
- Roedd llawer am gael mannau diogel, anfeirniadol i siarad yn agored a meithrin hyder, yn enwedig tadau sengl.
- Roedd rhai yn amau a fyddai grwpiau cefnogi'n gweithio oherwydd stigma, pwysau amser, neu deimlo'n anghysurus ynghylch siarad yn agored.
- Roedd eraill yn galw am newidiadau systematig fel gwell cefnogaeth gyfreithiol, cyfnod tadolaeth tecach, a chydnabyddiaeth gyhoeddus gryfach i dadau.

## Cysylltu

Os hoffech chi drafod mwy ar yr ymchwil yma, cysylltwch â:


- **Dr Klara Price** Prifysgol De Cymru klara.price@southwales.ac.uk
- **Anna Westall** Rheolwr Tîm Polisi Plant yng Nghymru anna.westall@childreninwales.org.uk